**LC677**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Pysgod Cregyn (Ardal Fôr Benodedig) (Gwahardd Dulliau Pysgota) (Cymru) 2003**

Mae hwn yn gwahardd carthu hydrolig am folysgiaid dwygragennog ym Mae Caerfyrddin.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gwall drafftio yn erthygl 4(1) sydd wedi cael ei gydnabod ar ran y Gweinidog.

Mae erthygl 4(1) yn darparu ar gyfer arfer y pwerau gorfodi ym mharagraffau (2) i (4) o fewn y "môr tiriogaethol cyfagos at Gymru".

Mae hyn yn golygu, yn groes i'r hyn y gellid ei dybio oedd y bwriad, nad yw'r pwerau'n arferadwy o fewn y "dyfroedd mewnol" megis y porthladdoedd, baeau ac aberoedd, a geir rhwng yr arfordir a'r llinellau sylfaen sy'n pennu terfynau'r môr tiriogaethol.

Gellid fod wedi osgoi'r hepgoriad hwn trwy ddefnyddio'r geiriad a ddefnyddir gan Ddeddf Llywodraeth Cymru i ddiffinio "Cymru" yn adran 155(1) -

> “the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea”.

Fe all y bydd y Cynulliad am ystyried gwneud gorchymyn diwygio.

748

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

25 Mawrth 2003